**EITEM**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **31 Gorffennaf, 2008** |
| **TEITL** | **Rhybudd o Gynnig y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones ynglŷn â Casglu Gwastraff Swmpus** |
| **PWRPAS** | **Ystyried y Rhybudd o Gynnig** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Peidio Mabwysiadu'r Cynnig** |
| **AWDUR** | **Gwyn Morris Jones**<br>**Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd R Arwel Pierce** |

**"Mae'r Cyngor Sir yn codi ar eu trethdalwyr ffi i fynd ymaith deunydd fel rhewgelloedd, matresi gwely ac eitemau swmpus eraill oddi wrth eu cartrefi, gwasanaeth oedd cynt am ddim ac yn rhan o'r dreth y Cyngor.**

**Drwy godi ar ein trethdalwyr, mae'n achosi i'r eitemau hyn gael ei gadael ar ochr y ffyrdd, neu mewn mannau anghysbell eraill yn ein hardaloedd, sydd yn creu llygredd ac yn ogystal yn rhoi argraff ddrwg i unrhyw ymwelydd a ddaw yn ystod ein tymhorau.**

**Hefyd, mae'n creu straen ariannol i'r rhai bregus yn ein cymdeithas fel yr henoed a'r rhai na all fforddio car er mwyn mynd a nhw i'r mannau cywir.**

**Felly rwy'n cynnig diddymu y ffioedd a mynd yn ôl i'r hen drefn o weithredu sef fod 3 eitem yn flynyddol am ddim i drethdalwyr y Sir".**

**Ystyriaethau**

1.1 Bu i'r mater hwn gael ei ystyried gan Fwrdd y Cyngor yn ei gyfarfod 19 Chwefror, 2008. Gweler Atodiad 1.

1.2 Roedd penderfyniad Bwrdd y Cyngor fel a ganlyn:

**(i) Newid y drefn bresennol o gasgliadau (cyntaf) am ddim, a ffi o £32.90 am bob casgliad a wneir yn ychwanegol i hyn yn ystod y flwyddyn ariannol, i drefn newydd ar gyfer 2008/09 o godi £15 am bob casgliad hyd at 5 eitem mewn nifer.**

**(ii) Gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol roi ystyriaeth pellach i drefniadau ar gyfer cyfarch anghenion pobl oedrannus a bregus, ac adrodd mewn da bryd ar gyfer 2009/10 i'r Pwyllgor Craffu perthnasol neu weithgor o'r pwyllgor hwnnw.**

1.3 Bu i'r gwasanaeth hwn dderbyn adolygiad yn 2006 lle penderfynodd y Bwrdd yn ei gyfarfod 16 Mai, 2006 i newid o'r drefn flaenorol ac i gwtogi'r nifer o gasgliadau am ddim i un y flwyddyn a chodi'r nifer o eitemau'r casgliad o 4 i 5 eitem. Penderfynwyd codi ffi o £32.90 ar gasgliadau ychwanegol i'r cyntaf. Seilwyd penderfyniad y Bwrdd ar y ffaith bod nifer o safleoedd derbyn ac ailgylchu gwastraff tŷ yn cael eu datblygu a bod pwysau ariannol cynyddol ar y gwasanaeth h.y. 'roedd gorddefnydd o'r gwasanaeth casglu swmpus a chostau cynyddol darparu'r gwasanaeth yn achosi gorwariant.

1.4 Bu i'r newidiadau i'r drefn gyflwynwyd yn Mai, 2006 wella'r sefyllfa o ran rheoli costau a defnydd o'r gwasanaeth, er amlygwyd rhai anfanteision:

(i) derbyniwyd beirniadaeth gan rai bod lefel y ffi o £32.90 ar gasgliadau ychwanegol yn rhy uchel
(ii) cafwyd rhai problemau gweithredol o ganlyniad e.e.
- galw uchel ar y gwasanaeth ar ddechrau'r flwyddyn ariannol
- cyfnod ymateb amrywiol oherwydd y galw a'r angen i gadw oddi fewn i gyllideb y gwasanaeth
(iii) gorddefnydd/ddibyniaeth ar y gwasanaeth yn parhau.

1.5 Dewisol yw'r gwasanaeth casglu swmpus a gyda rhwydwaith o safleoedd mwynderau yn brysur gael ei gyflawni, ac angen y Cyngor i sicrhau arbedion ariannol, 'roedd y gwasanaeth yn destun adolygiad arall yn 2007/08 gan dderbyn sylw y Pwyllgor Amgylchedd, Bwrdd Rheoli Adnoddau a'r Gweithgor Craffu perthnasol dan y drefn Blaenoriaethu Gweithgareddau.

1.6 'Roedd penderfyniad Bwrdd y Cyngor ar 16 Chwefror, 2008 i newid y drefn i godi £15 am bob casgliad yn galluogi'r Cyngor:

- i barhau gyda chynnig y gwasanaeth hwn i drigolion Gwynedd
- i reoli y defnydd o'r gwasanaeth a'r costau ynghlwm mewn darparu'r gwasanaeth
- yn gosod lefel ffi mwy rhesymol ar gasgliadau ychwanegol
- i gyfrannu swm amcangyfrifwyd o £50k o arbedion blynyddol i'r Cyngor.

1.7 Mae'n gywir nodi mai cyfnod byr sydd wedi goroesi ers cyflwyno'r newid yn Ebrill, 2008 ac mae angen dadansoddiad o gyfnod hwy er mwyn sefydlu effaith y newid. Yr hyn sydd yn amlygu ei hun hyd yma yw:

- bod y galw am gasgliadau wedi gostwng yn sylweddol, er bod ychydig gynnydd yn ddiweddar - mae hyn wedi arwain at well rheolaeth o'r gwasanaeth
- bod llawer gwell defnydd o'r safleoedd mwynderau ers Ebrill, 2008 - mae hyn yn arwain at well ymdriniaeth o'r gwastraff
- nad oes cynnydd yn yr achosion o waredu slei bach sydd wedi'i gofnodi yn ystod y cyfnod dan sylw
- bod posibiliad na fydd y targed incwm o £50k yn cael ei gyrraedd eleni.

1.8 Bu i'r Bwrdd argymell bod y Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol i roddi ystyriaeth pellach i drefniadau ar gyfer anghenion pobl oedrannus a bregus.

Yn unôl felly, 'rwyf wedi cynnal trafodaethau gyda'r Pennaeth Cyllid i bwrpas sefydlu trefn i adnabod y trigolion bregus drwy defnydd rhestrau o'r rhai sydd yn derbyn cymorth treth cyngor.

*Ystyriwyd pa gyfran o'r trigolion sydd yn "fregus", ac i'r perwyl hyn credaf mai'r pryder oedd am rai pobl sy'n methu fforddio'r £15. Yn fyr, "tlodi" (yr anallu i dalu oherwydd diffyg incwm / diffyg cynilion yr hawliwr) yw'r meini prawf ar gyfer cael budd-dal treth cyngor, ac y mae 10,532 / 59,000 = 17.85% o aneddleoedd Gwynedd yn derbyn rhyw faint o gymorth budd-dal treth cyngor. Gellid adnabod y trigolion sydd yn "fregus", i'r perwyl o gael casglu gwastraff swmpus trwy ddarganfod os ydynt yn derbyn budd-dal treth cyngor (budd-dal yn talu rhan o'u bil treth cyngor neu yn talu'r cwbl).*

Bydd galwadau'r Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn cael eu trosglwyddo i Ganolfan Gyswllt newydd y Cyngor ym Mhenrhyndeudraeth mis Medi. 'Rwyf, o ganlyniad, wedi cychwyn trafodaethau gyda Pennaeth Gwasanaeth Gofal Cwsmer i bwrpas ceisio sefydlu trefn ymateb i geisiadau am gasgliadau swmpus fyddai yn cynnwys gweithdrefn i adnabod a chadarnhau ceisiadau gan drigolion bregus.

Yn unol â phenderfyniad y Bwrdd mis Chwefror diwethaf, byddaf yn adrodd ar y mater hwn i'r Pwyllgor Amgylchedd yn ei gyfarfod nesaf ar y 16, Medi, 2008.

1.9 Mae angen pwyso a mesur yn ofalus y rhybudd o gynnig diweddar gan y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones.

1.9.1 O ran manteision mabwysiadu y cynnig dylid ystyried:

- y byddai rhoddi gwasanaeth am ddim (1 casgliad/3 eitem) yn gam eithaf poblogaidd o ran y trigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth
- y byddai yn diwallu'r angen i gyfarch anghenion ein trigolion bregus
- y byddai'n tawelu'r honiadau (di-sail neu beidio) bod hyn wedi arwain at waredu slei bach.

1.9.2 O ran anfanteision mabwysiadu y cynnig dylid ystyried:

- na fyddai'n bosib cyflawni'r arbedion sydd eisioes wedi ei gymeryd o gyllideb y Gwasanaeth sef £50k
- na fyddai'n bosib cyflawni arbedion ychwanegol o £60k sy'n deillio o leihad mewn costau cyflawni'r gwasanaeth oherwydd gostyngiad yn y galw
- byddai'n ofynnol i'r Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol sicrhau arbedion ariannol o weithgareddau eraill o fewn y Gwasanaeth – mae targed arbedion y Gwasanaeth wedi ei osod ar £610k eleni
- y byddai'n arwain at gynnydd yng nghost y gwasanaeth fyddai'n peryglu dyfodol y ddarpariaeth o ran yr adnoddau fydd ar gael i'w gyflawni e.e. byddai'n effeithio ar adnoddau dynol a'r amser i ymateb/casglu
- nad yw yn cynnig manteision o ran rheoli y defnydd o'r gwasanaeth a defnydd o'r safleoedd mwynderau.

1.10 Drwy bwyso a mesur manteision ac anfanteision y Rhybydd o Gynnig argymhellaf na ddylid mabwysiadu'r Cynnig.

**Gwyn Morris Jones**
**Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol**
**Gorffennaf, 2008**